

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Portwall Dental Surgery

Dyddiad arolygu: 06 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 07 Tachwedd
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Portwall Dental Surgery yn 5 Sgwâr Beaufort, Cas-gwent, NP16 5EP ar 06 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, sef un a oedd yn arwain yr arolygiad ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Portwall Dental Surgery yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf 'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog.

Roedd y cyfarpar deintyddol yn y ddwy ddeintyddfa mewn cyflwr da ac roedd trefniadau ar gyfer dihalogi offer deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Gwelsom fod y dyddiadau defnyddio erbyn a argymhellwyd gan y gwneuthurwr ar gyfer rhywfaint o'r cyfarpar dadebru brys wedi mynd heibio ond cafodd hyn ei unioni yn ystod yr arolygiad.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd gwybodaeth dda am iechyd y geg i blant ac oedolion ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros
- Roedd cofnodion yn cael eu cadw i safon uchel
- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r arferion clinigol yn addas at y diben
- Roedd cyfleusterau addas ar gael i'r staff newid a storio eu heiddo'n ddiogel
- Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gellid amddiffyn urddas a pharch y cleifion yn well wrth iddynt gael triniaeth

- Gellid cynnig mwy o wasanaethau i gleifion sy'n siarad Cymraeg er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion
- Dylid sicrhau bod copïau o'r polisi delio â chwynion ar gael er mwyn i gleifion fynd â chopi adref gyda nhw yn ôl yr angen
- Mae angen i un aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant uwch (lefel 2) ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed
- Gallai'r practis gynnal mwy o archwiliadau clinigol er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i gleifion

Wrth gynnal yr arolygiad hwn, nodwyd rhywfaint o achosion o dorri'r rheoliadau gennym - ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r person cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hynny arwain at beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Portwall Dental Surgery yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghas-gwent a'r cyffiniau.

Mae dau brif ddeintydd, sydd wedi'u cofrestru ar wahân ag AGIC, yn berchen ar y practis ar y cyd. Mae hyn yn golygu y caiff y ddau ddeintydd eu cydnabod fel yr unigolyn cyfrifol¹ a'r rheolwr cofrestredig² ar gyfer y practis fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae'r prif ddeintyddion yn cael eu cefnogi gan dîm o staff sy'n cynnwys trydydd deintydd, un hylenydd deintyddol, un therapydd deintyddol, tair nyrs deintyddol a derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

¹ Ystyr unigolyn cyfrifol yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017).

² Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod gan Portwall Dental Surgery brosesau addas ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff urddas a pharch y cleifion eu hamddiffyn yn well pan fyddant yn cael triniaeth.

Gwnaethom nodi bod angen cofnodi'r gwiriadau hanes meddygol a gwblhawyd â'r cleifion yn well yng nghofnodion y cleifion.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ac roedd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Trefnus iawn. Rwy'n teimlo'n hyderus ynghylch pob triniaeth a gaiff ei chwblhau"

"Mae pob aelod o'r staff yn hyfryd ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus. Gallai llawer o bobl ddysgu ganddynt"

"Dewisais ddod yma ar ôl cael gofal deintyddol gwael o'r blaen. Mae'r cyngor, y gofal a'r driniaeth rwyf wedi'u cael yma wedi bod yn wych. Mae fy nghyflwr wedi gwella llawer"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol hefyd wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod gan y practis bolisiau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom y saff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ond parchus a phroffesiynol a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Roedd hysbysiad preifatrwydd yn nodi sut y byddai gwybodaeth breifat a phersonol y cleifion yn cael ei diogelu wedi'i gynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros. Gwelsom fod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn agos iawn at ei gilydd, ond cadarnhaodd y staff y byddai sgysiau preifat â chleifion yn cael eu cynnal yn un o'r deintyddfeydd pe byddai angen.

Er bod y staff yn cau drysau pob deintyddfa yn ystod apwyntiadau, roeddem yn gallu gweld cleifion yn cael triniaeth gan y deintyddion drwy baneli gwydr tryloyw ar bob drws. Argymhellwn y dylid gorchuddio pob panel gwydr tryloyw ar ddrysau'r ddeintyddfeydd neu y dylid gosod deunydd nad yw'n dryloyw yn eu lle er mwyn rhoi preifatrwydd i gleifion yn ystod triniaethau.

Gwnaethom nodi bod y 9 Egwyddor³ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ystafell staff i'w hatgoffa o'u dyletswydd gofal fel gweithwyr deintyddol proffesiynol.

³ Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y paneli gwydr tryloyw ar ddrws pob deintyddfa eu gorchuddio neu y caiff deunydd nad yw'n dryloyw ei osod yn eu lle.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Gwelsom fod rhestr brisiau ar gyfer triniaethau wedi'i harddangos i gleifion yn yr ardal aros, a chadarnhaodd y cleifion eu bod yn cael gwybod am y costau cysylltiedig cyn cael unrhyw driniaeth.

Roedd gan y practis daflen wybodaeth i gleifion yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y datganiad o ddiben⁴ a ddarparwyd i ni ar ddiwrnod yr arolygiad hefyd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae gan y practis wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am dîm y practis a'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir ganddo. Roedd copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ar wefan y practis ar gyfer cleifion presennol neu ddarpar gleifion ac rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod copi o'r datganiad o ddiben hefyd ar gael ar y wefan yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos ar ddrws ffrynt y practis yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod copi o'i ddatganiad o ddiben ar gael i gleifion presennol a darpar gleifion ar ei wefan.

⁴ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedwyd wrthym fod un o'r prif ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis yn gallu cyfathrebu â'r cleifion yn Gymraeg. Rydym yn argymhell bod y practis yn hyrwyddo ei wasanaethau Cymraeg i gleifion, er enghraifft, drwy arddangos poster yn yr ystafell aros i ddangos pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig a oedd yn cynnwys nodiadau am y costau a'r opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rydym yn argymhell bod y practis yn gwneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaethau y gall eu darparu i gleifion yn Gymraeg.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallent gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn ffenestr y practis hefyd.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol⁵ cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym. Rhaid i bob deintydd sicrhau bod gwiriadau hanes meddygol ar lafar yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion yn unol â gofynion canllawiau proffesiynol.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd ar lafar gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yn briodol yng nghofnodion y cleifion.

Hawliau pobl

Roedd pobl ag anawsterau symudedd yn gallu cyrraedd y practis o'r stryd gan ddefnyddio ramp ac roedd rhywfaint o leoedd parcio i gleifion ar gael yn uniongyrchol y tu allan i'r practis. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros, toiledau'r cleifion a dwy ddeintyddfa ar y llawr daear, ac felly'n hygyrch i bawb. Roedd dwy ddeintyddfa arall a chyfleusterau i'r staff fyny'r grisiau.

⁵Mae hanes meddygol claf yn helpu'r deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi'r feddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf.

Nodwyd gennym fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi anabledd ar waith yn y practis, a oedd yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi triniaeth yn nodi'r trefniadau manwl ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi rhoi proses newydd ar waith yn ddiweddar i gasglu adborth gan gleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Roedd holiaduron papur ar gael wrth ddesg y dderbynfa i gasglu adborth gan gleifion a dywedwyd wrthym y caiff y canlyniadau a sylwadau penodol gan gleifion eu monitro a'u trafod â'r staff i gyd mewn cyfarfodydd tîm yn y dyfodol.

Nodwyd y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder mewn polisi delio â chwynion a gwelsom ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd copi o'r polisi delio â chwynion yn y ffolder gwybodaeth i gleifion ac roedd poster wedi'i arddangos ar y wal wrth ymyl y brif fynedfa yn hysbysu'r cleifion fod copi o'r polisi ar gael ar gais. Rydym yn argymhell bod y practis yn creu copïau ar wahân o'r polisi i gleifion fynd â nhw gartref heb orfod gofyn i aelod o'r staff er mwyn helpu i warchod preifatrwydd ac urddas y cleifion allai fod eisïau codi cwyn neu bryder.

Gwelsom fod system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod copïau ar wahân o'r polisi delio â chwynion ar gael i gleifion fynd â chopi adref gyda nhw yn ôl yr angen.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.

Gallai'r practis wneud mwy i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn llawn, er enghraifft drwy gynnal mwy o archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd hyn oherwydd bod gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da iawn, y tu mewn a'r tu allan. Roedd y dderbynfa a'r ardal aros yn groesawgar ac yn olau, a gwelsom fod pob ardal yn y practis yn lân iawn, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r practis yn ddigonol pe byddai tân:

- cynhaliwyd asesiadau risg tân yn rheolaidd a rhoddwyd camau adferol ar waith

- roedd dyfeisiau diffodd tân priodol ar gael ym mhob rhan o'r practis a oedd wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n briodol
- roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân addas
- roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng.

Roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁶. Roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis er mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gwelsom dystiolaeth fod nifer digonol o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw unigolion y mae angen cymorth cyntaf arnynt yn briodol.

Cawsom ein hysbysu o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau y gall y practis barhau i weithredu'n ddiogel os bydd argyfwng neu drychineb naturiol. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu a gwnaethom argymhell y dylid eu nodi mewn polisi parhad busnes er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd y staff yn gallu newid yn nhoiled y staff i fyny'r grisiau ac roedd drws y gellir ei gloi er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi'r trefniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng, er mwyn sicrhau bod y busnes yn gallu parhau i gael ei redeg yn ddiogel.

⁶ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁷. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodylfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod cofnodlyfr yn cael ei gynnal i ddogfennu a dilysu'r broses o lanhau offerynnau deintyddol â llaw cyn cwblhau'r broses sterileiddio.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth eang o bolisïau a oedd yn cynnwys manylion am y mesurau rheoli heintiau gwahanol sydd ar waith yn y practis, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn effeithiol yn yr ystafell ddihalogi a gweithdrefnau hylendid dwylo addas.

Mae gan bob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol ddyletswydd i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol fel amod o'u cofrestriad parhaus. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd un aelod o'r staff yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol y gellir ei ddilysu ar ddiheintio a dihalogi; rhaid i'r practis gyflwyno tystiolaeth o hyn i AGIC er mwyn sicrhau bod pob gan bob aelod o'r tîm gofal deintyddol lefel dderbyniol o gymhwysedd yn y maes hwn er mwyn helpu i ddiogelu cleifion a'r staff rhag heintiau.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

⁷ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom fod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol a gwelsom dystiolaeth fod contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio Hepatitis B derbyniol a oedd yn golygu bod mesurau priodol yn cael eu cymryd er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gadw cofnodlyfr i ddogfennu a dilysu'r broses o lanhau offerynnau deintyddol â llaw cyn cwblhau'r broses sterileiddio.

Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod yr aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol y gellir ei ddilysu ar ddihalogi a diheintio.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau a threfniadau effeithiol ar waith mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau a'u cadw'n ddiogel a'u gwaredu. Nodwyd gennym hefyd fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn lleihau'r risg y gellid cael gafael ar gyffuriau presgripsiwn yn anghyfreithlon a'u camddefnyddio.

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis, ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁸.

Fodd bynnag, er y gwelsom dystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y gwiriadau hynny'n cael eu dogfennu, gwelsom fod dyddiadau defnyddio erbyn y llwybrau anadlu oroffaryngeal a argymhellwyd gan y gwneuthurwr wedi mynd heibio. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwyr cofrestredig a wnaeth archebu

⁸ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

Ilwybrau anadlu ar unwaith i gyrraedd o fewn 24 awr. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o wybodaeth am y mater hwn.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn cynnwys y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer dadebru er mwyn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁹ er mwyn helpu MHRA i fonitro p'un a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt i'r staff roi gwybod i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn trafod unrhyw bryderon diogelu â'r arweinwyr diogelu enwebedig yn y practis yn gyntaf. Gwnaethom nodi bod angen i un aelod o'r tîm deintyddol gwblhau hyfforddiant uwch (lefel 2) o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed; roedd pob aelod arall o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol.

Nid oedd gan y practis gopi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles ledled Cymru. Argymhellwn y dylai'r practis gael copi o'r gweithdrefnau ac y dylai aelodau o'r staff sicrhau eu bod yn ymgyswrtio â'r cynnwys er mwyn deall y dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â diogelu plant.

Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd

⁹ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

hyn yn cynnwys gofyn am eirdaon gan gyflogwyr blaenorol a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)¹⁰ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod yr aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant uwch (lefel 2) ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da. Roedd pob deintyddfa yn cynnwys digon o gyfarpar, offerynnau a deunyddiau. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod mwy o ddarnau llaw y digennydd uwchsain ar gael yn y ddeintyddfa a ddefnyddir gan yr hylenydd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyffredol ar ymbelydredd Ïoneiddio
- roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol¹¹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu

¹⁰ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

¹¹ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod mwy o ddarnau llaw y digennydd uwchsain ar gael yn y ddeintyddfa a ddefnyddir gan yr hylenydd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal rhai archwiliadau clinigol er mwyn dadansoddi ansawdd y gofal deintyddol a'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion ac i nodi meysydd i'w gwella. Cwblhawyd archwiliadau o gydymffurfiaeth gan ddilyn canllawiau arfer gorau WHTM 01-05 ar ddihalogi ac o ansawdd delweddau pelydrau-X. Argymhellwn y dylid ychwanegu mwy o weithgareddau archwilio, gan gynnwys archwiliadau o ragnodi gwrthfotigau, trefniadau integredig ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ac ansawdd cofnodion cleifion, i'r amserlen o archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Roedd polisi yn nodi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol yn y practis ar waith fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff digon o weithgareddau archwilio eu cynnal yn y practis er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn llawn er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol yn glinigol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Eglurodd y rheolwyr cofrestredig fod yr holl staff yn aml yn cydweithio i nodi meysydd i'w gwella yn y practis a gwnaethom argymell y gallai'r practis hefyd

ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru¹² i wneud hyn mewn ffordd fwy ffurfiol.

Cadarnhaodd y practis nad yw'n gwneud unrhyw waith ymchwil.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis sawl polisi ar waith yn nodi'r gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig a dywedwyd wrthym fod copïau o'r data yn cael eu creu a'u cadw oddi ar y safle yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir adfer y data gwreiddiol pe byddai unrhyw beth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad ein bod wedi adolygu sampl o gofnodion cleifion y ddau ddeintydd yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda ar y cyfan a'u bod yn helpu i hyrwyddo llesiant a diogelwch y cleifion. Mae hyn oherwydd bod y cofnodion cleifion a welsom:

- yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- yn cynnwys tystiolaeth bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i gael triniaeth

¹² <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

- yn cynnwys dogfennaeth radiograffi gynhwysfawr yn unol â chanllawiau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)

Rydym yn argymhell y dylid defnyddio gwybodaeth o hanes cymdeithasol y claf (e.e. smygu, faint o alcohol a yfir, faint o siwgr a fwyteir) i greu proffil risg cyffredinol i gleifion ac asesiad risg o ganser y geg. Rydym hefyd yn argymhell y dylid cofnodi'r rhesymau dros gyfnodau adalw deintyddol yn gyson yng nghofnodion y cleifion yn unol â'r canllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth o hanes cymdeithasol y claf yn cael ei defnyddio i greu proffil risg cyffredinol i gleifion ac asesiad risg o ganser y geg.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhesymau dros gyfnodau adalw deintyddol i gleifion yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion yn unol â'r canllawiau proffesiynol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth fod gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion a gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r rheoliadau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd dystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd pob un o'r polisiâu wedi cael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwyr cofrestredig adolygu'r broses bresennol a rhoi system ar waith sy'n rhoi mwy o sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall pob polisi a gweithdrefn sydd ar waith yn y practis.

Cadarnhaodd y ddau brif ddeintydd eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y rheoliadau fel rheolwyr cofrestredig o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os ceir anaf difrifol i gleifion.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnïad priodol ar waith ar eu cyfer.

Nodwyd gennym fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i gofrestru'n gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau deintyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Roedd cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig i bob aelod o'r staff a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Cynhelir cyfarfodydd practis yn rheolaidd er mwyn cynnig cyfle i'r staff nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Cymerir cofnodion o bob cyfarfod ac fe'u hanfonir at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnig cyfleoedd i'r staff glywed adborth am eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd DPP.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd polisi recriwtio yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o'r staff ac roedd polisi sefydlu yn nodi'r broses i'w dilyn er mwyn helpu aelodau newydd o'r staff i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom edrych ar y cyfarpar dadebru brys a gwelsom fod dyddiadau defnyddio erbyn y llwybrau anadlu oroffaryngeal a argymhellwyd gan y gwneuthurwr wedi mynd heibio.	Roedd hyn yn golygu bod risg na fyddai'r llwybrau anadlu yn gweithio fel sy'n ofynnol pe baent yn cael eu defnyddio mewn argyfwng meddygol sy'n gofyn am ddadebru.	Gwnaethom godi ein pryderon â'r rheolwyr cofrestredig yn ystod yr arolygiad a gofynnwyd iddynt gael eu datrys ar unwaith.	Cafodd llwybrau anadlu newydd eu harchebu ar unwaith a chawsom dystiolaeth yn dilyn hynny i ddangos eu bod wedi cael eu hanfon at y practis o fewn 24 awr.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Portwall Dental Surgery

Dyddiad arolygu: 06 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Portwall Dental Surgery

Dyddiad arolygu: 06 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y paneli gwydr tryloyw ar ddrws pob deintyddfa eu gorchuddio neu y caiff deunydd nad yw'n dryloyw ei osod yn eu lle.	Safonau lechyd a Gofal 2015 Safon 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae pob panel wedi'i orchuddio â ffilm tywyll.	Gaenor Davison (Rheolwr Cofrestredig).	Cwblhawyd 20/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 15(1)			
Dylai'r practis sicrhau bod copi o'i ddatganiad o ddiben ar gael i gleifion presennol a darpar gleifion ar ei wefan.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 5 (2)	Mae Datganiad o Ddiben ar gael ar bob tudalen ar y wefan ar y ddewislen waelod.	Alison Jones (Rheolwr Cofrestredig).	Cwblhawyd 13/09/19
Rydym yn argymhell bod y practis yn gwneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaethau y gall eu darparu i gleifion yn Gymraeg.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 3.2	Gall gleifion gael ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg â'n deintydd sy'n siarad Cymraeg. Gellir gwneud cais i gael holl wybodaeth a pholisïau'r practis yn Gymraeg. Mae hysbysiad yn yr ystafell aros a'r wefan yn rhoi gwybod i'r cleifion am hyn.	Gaenor Davison.	Cwblhawyd 25/09/19
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob deintydd yn cofnodi unrhyw wiriadau hanes meddygol a gwblhawyd gyda'r cleifion yn ystod pob apwyntiad yn briodol yng nghofnodion y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20 (1a(ii))	Mae pob deintydd yn cofnodi'r hanes meddygol diweddaraf yn nodiadau'r cleifion yn ystod pob ymweliad erbyn hyn.	Alison Jones	Cwblhawyd 06/08/19
Mae angen i'r practis sicrhau bod copïau ar	Rheoliadau	Mae sawl copi o'r Polisi Cwynion ar gael	Alison Jones	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
wahân o'r polisi delio â chwynion ar gael i gleifion fynd â chopi adref gyda nhw yn ôl yr angen.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 15(1)	yn y dderbynfa erbyn hyn.		07/08/19
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen i'r practis ddatblygu polisi sy'n nodi'r trefniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng, er mwyn sicrhau bod y busnes yn gallu parhau i gael ei redeg yn ddiogel.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8 (1o)	Mae'r Cynllun Wrth Gefn mewn Argyfwng wedi'i gwblhau erbyn hyn ac wedi'i drafod â phob aelod o'r staff.	Alison Jones	Cwblhawyd 20/09/19
Mae angen i'r practis gadw cofnodlyfr i ddogfennu a dilysu'r broses o lanhau offerynnau deintyddol â llaw cyn cwblhau'r broses sterileiddio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(3b)	Mae'r cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddihalogi erbyn hyn.	Gaenor Davison	Cwblhawyd 23/09/19
Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod yr aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol y gellir ei ddilysu ar ddihalogi a	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Mae'r aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant a darparwyd tystiolaeth i AGIC.	Gaenor Davison	Cwblhawyd 24/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
diheintio.	2017 Rheoliad 17(3a)			
Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC fod yr aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant uwch (lefel 2) ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 14(1b)	Mae'r aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant a darparwyd tystiolaeth i AGIC.	Gaenor Davison	Cwblhawyd 24/09/19
Mae angen i'r practis sicrhau bod mwy o ddarnau llaw y digennydd uwchsain ar gael yn y ddeintyddfa a ddefyddir gan yr hylenydd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 13(2a)	Mae'r practis wedi archebu ac wedi derbyn y darnau llaw.	Gaenor Davison	Cwblhawyd 24/09/19
Mae angen i'r practis sicrhau y caiff digon o weithgareddau archwilio eu cynnal yn y practis er mwyn asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn llawn er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol yn glinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16 (2d)(ii))	Mae tri archwiliad yn cael eu cynnal ar hyn o bryd: 1. Archwiliadau o radiograffiau. Caiff hyn ei ddiweddarau bob chwe mis ar sail barhaus. Dyddiad dechrau Tachwedd 2014.	Alison Jones	Cwblhawyd 01/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>2. Caiff archwiliadau o ddihalogi/croes-heintio eu cynnal yn flynyddol. Dyddiad dechrau Tachwedd 2016.</p> <p>3. Archwiliad o fewnblaniadau. Dechreuodd hyn ym mis Medi 2013 ac mae'n mynd rhagddo ar sail barhaus.</p> <p>Mae'r practis wedi dechrau ar y pedwerydd archwiliad erbyn hyn i adolygu nodiadau'r deintyddion. Gwnaethom benderfynu dechrau cynnal yr archwiliad hwn yn dilyn cyngor gan AGIC yn ystod yr arolygiad. Caiff hyn ei adolygu bob tri mis.</p>		
Rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth o hanes cymdeithasol y claf yn cael ei defnyddio i greu proffil risg cyffredinol i gleifion ac asesiad risg o ganser y geg.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae pob deintydd wedi rhoi hyn ar waith.	Alison Jones	Cwblhawyd 07/09/19
Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhesymau dros gyfnodau adalw deintyddol i gleifion yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion yn	Rheoliad 20	Mae pob deintydd a hylenydd wedi rhoi hyn ar waith.	Alison Jones	Cwblhawyd 07/19/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
unol â'r canllawiau proffesiynol.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer yr adran hon.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alison Jones

Swydd: Prif Ddeintydd/Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 25 Medi 2019